# Y BANC

**Hyfedredd**



# Ymdrin â Chofnodion Cyfarfod

## Datblygu Dadl a Symud Trafodaeth Ymlaen




Cam 1 – Cyn Dechrau
(Geirfa a Phatrymau)




Cam 2 – Ymarfer Cadarnhau
(Golygu Testun)




Cam 3 – Llenwi'r Bylchau Trwy
Ddewis y Geiriau Iawn




Cam 4 – Ymarfer Ad-drefnu




Cam 5 – Ymarfer Llafar




Darn Sain 1 (Safonol)
Darn Sain 2 (Naturiol)

# Nodyn i'r Tiwtor

## Hyd: 1.5 - 2 awr

Bydd angen llungopïo'r camau gwahanol ar gyfer pawb yn y dosbarth. Maent i gyd yn A4 i wneud pethau'n haws. Bydd angen torri stribedi ar gyfer yr ymarfer llafar.

**Amser Paratoi**: 15 munud ac amser ymgyfarwyddo.

# Cam 1 - Cyn Dechrau

| | | |
|---|---|---|
| Cyn i ni ddechrau | Oes rhywun yn cynnig? | Pwy ydy'r cynigydd/eilydd? |
| Cyflwyno cofnodion | Oes rhywun yn eilio? | Pwynt o drefn |
| Fel y gwyddoch | Oes unrhyw gywiriad? | Unrhyw ymddiheuriadau |
| Mae pawb yn gytûn | Pasiwyd yn unfrydol | |
| Neb yn gwrthwynebu | Pawb o blaid | * Yn cael sylw yn yr Ymarfer Cadarnhau (Cam 2) |
| Os caf i symud ymlaen | Pawb yn erbyn | |

# Y BANC

**Hyfedredd**




## Cam 2 - Ymarfer Cadarnhau
### Golygu Testun

Rhennwch y dosbarth yn ddau neu dri o dimau. Yn y darn hwn mae 14 o gamgymeriadau. Rhaid i bob tîm – yn ei dro – ddarganfod camgymeriad a chynnig y fersiwn gywir. Ni ddylid caniatáu i unrhyw dîm gael mwy na deg eiliad i ddarganfod camgymeriad. Os ydy'r aelodau'n oedi'n rhy hir rhaid symud ymlaen at y tîm nesaf. Mae modd hawlio pwynt am bob ateb cywir. Ar ddiwedd yr ymarfer, dylai'r tiwtor fynd dros yr holl gamgymeriadau â'r dosbarth gan esbonio unrhyw bwynt nad yw'n hollol glir i bawb. Wedyn dylai'r dosbarth, mewn parau, lenwi'r grid isod.

*Lansiwyd prosiect newydd mewn y cyfarfod ym Mhorthmadog ddoe. Roedd y rheolwr wedi ysgrifennu i ugain o bobl ond dim ond deg oedd yn y cyfarfod. Roedd saith dyn a thair o Ferched y Wawr. Roedd y dair yn falch o gael cyfle i gefnogi'r prosiect. Cyrraeddodd y saith dyn gyda'u gilydd o swyddfa Caernarfon.*

*Gofynnodd y Cadeirydd os oedd pawb yn barod ac esboniodd fod y prosiect yn brosiect arbennig o pwysig. Dywedodd i bawb hefyd fod y prosiect yn mynd i bara am bum blynedd. Diolchodd i'r Cynulliad am dreulio cymaint o amser yn cynllunio'r prosiect.*

*Roedd pawb yn drist o glywed am farwolaeth Mr E. Edgar Hughes a farwodd mewn damwain ychydig yn ôl. Mr Hughes oedd yr ysbrydoliaeth y tu ôl i'r prosiect.*

*Ar ôl gorffenodd e siarad, torrodd y Cadeirydd y rhuban â siswrn.*

*Aeth pawb gartref ar ôl cael coffi.*

*Bydd munudau cyfarfodydd pwyllgor llywio'r prosiect yn ymddangos ar y wefan yn rheolaidd a disgwylir y bydd y prosiect yn hysbyseb dda i Gymry.*

| | Camgymeriad | Cywiriad |
|---|---|---|
| **1.** | .............................. | .............................. |
| **2.** | .............................. | .............................. |
| **3.** | .............................. | .............................. |
| **4.** | .............................. | .............................. |
| **5.** | .............................. | .............................. |
| **6.** | .............................. | .............................. |
| **7.** | .............................. | .............................. |
| **8.** | .............................. | .............................. |
| **9.** | .............................. | .............................. |
| **10.** | .............................. | .............................. |
| **11.** | .............................. | .............................. |
| **12.** | .............................. | .............................. |
| **13.** | .............................. | .............................. |
| **14.** | .............................. | .............................. |

# Y BANC



**Hyfedredd**

## Cam 3 – Llenwi'r Bylchau
### Datblygu Dadl a Symud Trafodaeth Ymlaen



Rydych wedi cael copi o drawsysgrif cyfarfod lle mae'r Cadeirydd wedi bod yn ymdrechu i symud y drafodaeth ymlaen ond heb fawr o lwyddiant. Yn anffodus, roedd problem gyda'r argraffydd a dydy'r copïau ddim yn glir. Defnyddiwch yr ymadroddion ar waelod y darn i lenwi'r bylchau.

| | |
|---|---|
| Cadeirydd: | Wel, croeso i'r cyfarfod heno. Fel y gwyddoch, ychydig iawn o............................................................ heno ac mae sawl ................................................................ ar yr agenda... |
| Mr Lewis: | ............................................. ddechrau, Mr Cadeirydd, hoffwn i ddiolch i'r swyddogion am gyflwyno cofnodion mor swmpus. |
| Cadeirydd: | Wrth gwrs. .............................................. ymlaen at yr agenda. Oes unrhyw ................................................................ i ddechrau? |
| Mr Davies: | Oes. Graham Hill. |
| Mr Lewis: | Ac mae Mrs Edna Williams wrth gwrs yn yr ysbyty o hyd. Dw i'n siŵr ................................................................ anfon ein dymuniadau gorau. |
| Cadeirydd: | Iawn. |
| Mr Lewis: | A beth am anfon blodau? |
| Cadeirydd: | ................................................................ anfon blodau? Neb yn ................................................................? Iawn. Pasiwyd yn ................................................. Hoffwn i symud ................................................................ at bwynt dau – cofnodion y cyfarfod diwethaf. Oes ................................................................ i ddechrau? |
| Mr Lewis: | Oes. Dydy fy enw i ddim i lawr dan 'Ymddiheuriadau' ond roeddwn i wedi ffonio. |
| Cadeirydd: | Ydy'r .............................................yn barod i gynnwys y cywiriad hwnnw? Diolch yn fawr. Byddwn yn ddiolchgar ......................................................................................................................... nawr. Pwynt tri. Materion yn Codi. Oes unrhyw bwynt? Nac oes? Gwych. ............................................................. felly at y pwynt nesaf sef Agor Ysbyty Newydd. |
| Mr Lewis: | ................................................................, Mr Cadeirydd. Mae'n arferol i ni gael coffi yn ystod cyfarfodydd o'r pwyllgor hwn. |
| Cadeirydd: | Ydy ond gyda'r nos rydyn ni'n cyfarfod yr wythnos hon, Mr Lewis a dydy staff y gegin ddim ................................................................ . Os ............................................. ymlaen eto. Yr ysbyty newydd. |
| Mr Davies: | Mae papur o blaid y datblygiad ar y bwrdd, Mr Cadeirydd. |
| Cadeirydd: | Oes. Diolch yn fawr am ...................................................hynny. Ydy pawb wedi cael cyfle i ddarllen y papur? |
| Mr Lewis: | Mae'n ddrwg gen i ond dw i'n meddwl ein bod ni i gyd eisiau mwy o amser i feddwl am y mater. |
| Mr Davies: | Ond ................................................................ yn ystod y cyfarfod diwethaf. |
| Cadeirydd: | Dw i'n cytuno. Oes rhywun yn ................................................. ein bod yn cefnogi'r ysbyty newydd? |
| Mr Davies: | Fi, Mr Cadeirydd. |
| Cadeirydd: | Diolch. Oes rhywun yn ................................................? |
| Mr Lewis: | Fi. |
| Cadeirydd: | Y..? Diolch. Diolch yn fawr. ........................................................ arall tan y tro nesaf. |

acen

ar ddyletswydd
cynnig
Cyn i ni
eilio
eitem bwysig
dynnu sylw at
Gadawn ni bopeth

gwrthwynebu
Os caf i symud
cawn symud
Pawb o blaid
pe bai modd i ni ganolbwyntio ar fusnes y cyfarfod
Pwynt o drefn
roedden ni i gyd yn gytûn

swyddogion
Symudwn ni ymlaen
ymlaen yn gyflym os caf i
unfrydol
unrhyw gywiriad
amser sy gennyn ni
ymddiheuriadau
yr hoffem i gyd

# Y BANC

**Hyfedredd**



## Cam 4 - Ymarfer Ad-drefnu
### Datblygu Dadl a Symud Trafodaeth Ymlaen (1)

Bydd eich tiwtor wedi paratoi cyfres o stribedi ar gyfer pob pâr neu grŵp o 3-5. Bydd y stribedi wedi'u cymysgu. Trwy drafod, ad-drefnwch y stribedi i greu'r ddrama wreiddiol.

| | |
|---|---|
| Cadeirydd: | Wel, croeso i'r cyfarfod heno. Fel y gwyddoch, ychydig iawn o amser sy gennyn ni heno ac mae sawl eitem bwysig ar yr agenda... |
| Mr Lewis: | Cyn i ni ddechrau, Mr Cadeirydd, hoffwn i ddiolch i'r swyddogion am gyflwyno cofnodion mor swmpus. |
| Cadeirydd: | Wrth gwrs. Os cawn symud ymlaen at yr agenda. Oes unrhyw ymddiheuriadau i ddechrau? |
| Mr Davies: | Oes. Graham Hill. |
| Mr Lewis: | Ac mae Mrs Edna Williams wrth gwrs yn yr ysbyty o hyd. Dw i'n siŵr yr hoffem i gyd anfon ein dymuniadau gorau... |
| Cadeirydd: | Iawn.. |
| Mr Lewis: | A beth am anfon blodau? |
| Cadeirydd: | Pawb o blaid anfon blodau?...Neb yn gwrthwynebu? Iawn. Pasiwyd yn unfrydol. Hoffwn i symud ymlaen yn gyflym os caf i at bwynt dau – cofnodion y cyfarfod diwethaf. Oes unrhyw gywiriad i ddechrau? |
| Mr Lewis: | Oes. Dydy fy enw i ddim i lawr dan 'Ymddiheuriadau' ond roeddwn i wedi ffonio. |
| Cadeirydd: | Ydy'r swyddogion yn barod i gynnwys y cywiriad hwnnw? Diolch yn fawr. Byddwn yn ddiolchgar pe bai modd i ni ganolbwyntio ar fusnes y cyfarfod nawr. Pwynt tri. Materion yn Codi. Oes unrhyw bwynt? Nac oes? Gwych. Symudwn ni ymlaen felly at y pwynt nesaf sef Agor Ysbyty Newydd. |
| Mr Lewis: | Pwynt o drefn, Mr Cadeirydd. Mae'n arferol i ni gael coffi yn ystod cyfarfodydd o'r pwyllgor hwn. |
| Cadeirydd: | Ydy ond gyda'r nos rydyn ni'n cyfarfod yr wythnos hon, Mr Lewis a dydy staff y gegin ddim ar ddyletswydd. Os caf i symud ymlaen eto. Yr ysbyty newydd. |
| Mr Davies: | Mae papur o blaid y datblygiad ar y bwrdd, Mr Cadeirydd. |
| Cadeirydd: | Oes. Diolch yn fawr am dynnu sylw at hynny. Ydy pawb wedi cael cyfle i ddarllen y papur? |
| Mr Lewis: | Mae'n ddrwg gen i ond dw i'n meddwl ein bod ni i gyd eisiau mwy o amser i feddwl am y mater. |
| Mr Davies: | Ond roedden ni i gyd yn gytûn yn ystod y cyfarfod diwethaf. |
| Cadeirydd: | Dw i'n cytuno. Oes rhywun yn cynnig ein bod yn cefnogi'r ysbyty newydd? |
| Mr Davies: | Fi, Mr Cadeirydd. |
| Cadeirydd: | Diolch. Oes rhywun yn eilio? |
| Mr Lewis: | Fi. |
| Cadeirydd: | Y..? Diolch. Diolch yn fawr. Gadawn ni bopeth arall tan y tro nesaf. |



# Cam 5 - Ymarfer Llafar
## Gêm y Pwyllgor

Ymrannwch yn grwpiau o 3 – 5
Mae pob grŵp yn mynd i gynnal cyfarfod cyhoeddus.
Yn gyntaf, penderfynwch ar natur gyffredinol y cyfarfod (e.e Merched y Wawr, Cyngor Lleol) a lluniwch agenda syml gan ddilyn y patrwm yma.



Croeso'r Cadeirydd

Ymddiheuriadau

Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf

Materion yn Codi

Dau bwnc sy'n berthnasol i'ch pwyllgor

Unrhyw fater Arall

Dyddiad a Lleoliad y Cyfarfod Nesaf.

Rhaid i bob grŵp nawr ddewis Cadeirydd.
Gwaith y Cadeirydd ac aelodau gwreiddiol y grŵp ydy dod â'r cyfarfod i ben cyn gynted ag y bo modd.
Gwaith pawb arall yn y dosbarth ydy arafu'r cyfarfod trwy godi pwyntiau a gofyn cwestiynau.

**Cofiwch ddatblygu pob sgwrs.
Byddwch yn barod i ofyn am fwy o wybodaeth a'i chynnig**